Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

13 Gorffennaf 2018

Annwyl Dai

**Adroddiad ar ddeiseb P-04-682 Sgrinio Rheolaidd ar gyfer Diabetes Math 1 mewn Plant a Phobl Ifanc**

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Deisebau wedi bod yn ystyried y ddeiseb uchod, a gyflwynwyd i'r Cynulliad yn dilyn marwolaeth athrist Peter Baldwin, a oedd yn 13 oed pan fu farw o ganlyniad i effeithiau diabetes math 1.

O gofio bod y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon wedi ystyried y mater hwn yn flaenorol, roeddwn am eich hysbysu ein bod ni heddiw, 13 Gorffennaf 2018, wedi cyflwyno adroddiad ar y dystiolaeth a dderbyniwyd yn ystod ein hystyriaeth o'r ddeiseb. Ceir linc i'r adroddiad isod:

http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11664/cr-ld11664-w.pdf

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig gan nifer o ffynonellau. Rydym yn cydnabod y gall prinder cymharol diabetes math 1 ymhlith plant a phobl ifanc, ynghyd â'r symptomau cyffredinol sy'n aml yn bresennol yn y cyfnod cynnar, ei gwneud yn anodd cael diagnosis. Fodd bynnag, roedd yr hyn a glywsom fel Pwyllgor yn ein hargyhoeddi bod yna waith i'w wneud gan y llywodraeth, byrddau iechyd a chlinigwyr, tuag at wella diagnosis cynnar. O ganlyniad, rydym wedi gwneud 10 o argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried.

Rydym yn bwriadu i'r adroddiad gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn maes o law.

Yn gywir

David J Rowlands AC
Cadeirydd